

Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

Lefel 1 - Uned 2

Uned 2 Rheoli Materion Ariannol

2.1 Y ffordd orau i dalu am bethau

Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Forms of Payment* (FB1 to FB4) a defnyddiwch yr wybodaeth i gwblhau'r cwestiynau astudiaeth achos isod. (AC 1.1)

Defnyddiwch y tudalennau gwag ar ddiwedd yr uned hon os na fydd gennych ddigon o le.

Astudiaeth achos 1

Mae angen i Gerry dalu ei rent. Mae angen iddo wneud yn siŵr fod y landlord yn derbyn y swm cywir o arian yn brydlon bob mis.

2.1.1 Beth yw'r ffordd orau i Gerry dalu ei rent?

.....

Astudiaeth achos 2

Mae Cara'n mynd ar ei gwyliau i Sbaen . Mae hi'n mynd ag arian i dalu am fwyd ac am adloniant ac mae'n bwriadu prynu anrhegion i'w chariad.

2.1.2 Beth yw'r ffordd orau i Cara fynd ag arian i dalu am yr eitemau tra'i bod hi ar ei gwyliau?

.....

.....

Astudiaeth achos 3

Mae Jo'n teithio ar y bws i'r farchnad bob wythnos i brynu ffrwythau a llysiau.

2.1.3 Pa ddull talu fyddai orau i Jo ei ddefnyddio?

.....

Astudiaeth achos 4

Mae Mina eisiau prynu dillad mewn sêl ond does ganddi hi ddim digon o arian yn ei chyfrif.

2.1.4 Pa fath o daliad allai Mina ei ddefnyddio?

.....

2.1.5 Profwch eich hun - ceisiwch ateb y cwestiynau isod, yna gwiriwch yr atebion yn nhaflenni Ffeithiau Addysg Nationwide - *Forms of Payment* ([FB1 to FB4](#)).

a) Rhowch un fantais o allu talu gydag arian parod

b) Rhowch anfantais o dalu gydag arian parod

c) Beth yw siec?

ch) Pam mae sieciau'n ddull cymharol ddiogel o dalu?

.....

d) Beth yw cerdyn arian?

dd) Beth yw siec teithwyr?

e) Pa mor hen sy' raid i chi fod i gael cerdyn credyd a sut mae cerdyn credyd yn cael ei ddefnyddio?

.....

f) Beth yw cerdyn debyd?

ff) Beth yw un anfantais defnyddio cardiau credyd siopau?

.....

.....

g) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng debyd uniongyrchol ac archeb sefydlog?

.....

2.2 Cynilon

Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Budgeting* (FB9) and *Money Saving Tips* (FB10) a chwblhewch y gweithgareddau isod:

Meddyliwch am ffyrdd rydych chi'n gwario arian. Ydych chi'n ei wario cyn gynted ag y byddwch yn ei dderbyn neu ydych chi'n cynilo i brynu rhywbeth rydych yn wirioneddol am ei gael? Mae cwmnïau'n trïo eich cael chi i brynu eu nwyddau a'u gwasanaethau drwy'r amser. Mae biliynau o bunnoedd yn cael eu gwario bob blwyddyn ar hysbysebu er mwyn trïo eich cael i feddwl bod angen cynnyrch penodol arnoch chi. Mae siopwyr call yn dysgu gweld drwy'r 'castiau hysbysebu' hyn ac yn edrych am werth am arian.

2.2.1 Gweithgaredd 1 (AC 2.1)

Meddyliwch am ddeg peth y bydd eu hangen arnoch chi neu yr hoffech chi eu prynu dros y blynyddoedd nesaf. Ceisiwch gynnwys o leiaf ddau:

- pryniannau tymor byr - pethau rhesymol y gallech eu prynu heb gynilo ar eu cyfer
- pryniannautymor canolig - pethau y gallech orfod cynilo er mwyn eu prynu
- pryniannau tymor hir - pethau fydd yn cymryd amser hir i chi gynilo er mwyn eu prynu.

	Pethau i'w prynu	Tymor byr	Tymor canolig	Tymor hir
1				
2				
3				
4				
5				
6				

7				
8				
9				
10				

2.2.1 Gweithgaredd 2 (AC 2.1)

Gan ddefnyddio eich rhestr o Weithgaredd 1, dewiswch ddau neu ragor o bethau a brynwyd ac ymchwiliwch faint maen nhw'n gostio. Gallech edrych ar wefannau (ee Amazon) neu mewn siopau neu ddefnyddio catalogau. Sut gallech chi arbed arian i brynu'r pethau hyn?

Eitem	Pris	Sut gallech chi arbed arian i brynu

2.2.1 Gweithgaredd 3 (AC 2.1)

Dewiswch un o'r eitemau ar eich rhestr tymor canolig o Weithgaredd 1. Lluniwch gynllun i ddangos sut y byddwch yn cynilo er mwyn prynu'r eitem.

Eitem Pris

Dull cynilo	Swm	Pa mor hir (dyddiau neu wythnosau)	Cyfanswm a gynilwyd
<i>ee cerdded i'r ysgol yn lle mynd ar y bws</i>	<i>£8 yr wythnos</i>	<i>5 wythnos</i>	<i>£40</i>

Ail-ddarllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Budgeting* (FB9) and *Money Saving Tips* (FB10) os oes angen a chwblhewch y gweithgareddau isod:

2.2.2 Gweithgaredd 1 (AC 2.2)

Mater o flaenoriaethu yw cynilo arian - edrych ar beth sydd ei angen arnoch chi neu beth rydych chi'n teimlo sy'n bwysig, a beth allwch chi fyw hebdo.

Mae Nilam yn fyfyrwr sydd newydd symud o'i gartref ac mae'n rhannu fflat ar rent gyda ffrind. Mae ei theulu'n rhoi lwfans wythnosol bach iddi ac mae ganddi hi waith rhan amser hefyd, ond dydy hi ddim yn ennill digon o arian i dalu ei chostau i gyd. Gosodwch ei threuliau yn nhrefn pwysigrwydd (hy pa un ddylai hi ei dalu gyntaf) o 1 i 19, gydag 1 y mwyaf pwysig. Os hoffech wneud hynny, gallech gymharu eich rhestr gyda phartner a chytuno ar y drefn rhyngoch chi. Mae Nilam eisiau cynilo arian. Pa bethau allai hi wneud hebddyn nhw?

Eitem	Eich trefn (1 - 19)	Trefn y tîm (1 - 19)	A allai wneud hebddo?	
			Gallai	Na
Bwyd				
Teledu				
Chwaraewr CD / iPod				
Gwyliau				
Sinema				
Ffioedd coleg				
Bil ffôn				
Rhent				
Bil trydan				
Trin gwallt				
Cynnal a chadw'r car a phetrol				
Dillad				
Bar ewinedd				
Yswiriant cartref				
Bwyd mewn bwyty				
Llyfrau coleg				
Noson allan mewn clwb				
Anrheg i'r teulu				
Cynilon				

2.2.2 Gweithgaredd 2 (AC2.2)

Meddyliwch yn ôl am beth rydych chi a'ch teulu wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf. Cwblhewch y blwch isod drwy ddisgrifio beth wnaethoch chi a faint wnaethoch chi'i wario. Rhestrwch bethau allai fod wedi cael eu gwneud yn wahanol er mwyn arbed arian.

	Beth wnaethoch chi	Faint warioch chi	Sut y gallech fod wedi arbed arian
Cludiant			
Dillad			
Adloniant a hamdden			
Bwyd			

2.2.2 Gweithgaredd 3 (AC 2.2)

Mantais cynilo arian - Llog

Os byddwch yn cynilo arian mewn cymdeithas adeiladu neu fanc, byddwch yn derbyn arian ychwanegol a elwir yn 'llog'. Cyfraddau llog yw'r canrannau y byddwch yn eu hennill ar eich arian. Po uchaf yw'r cyfradd llog a pho fwyaf o arian sydd gennych chi yn y cyfrif, mwyaf oll o log y byddwch yn ei gael.

Er enghraifft:

Pe byddech chi'n rhoi £100 mewn cyfrif cynilo gyda llog o 5% y flwyddyn, ar ddiwedd y flwyddyn byddai'r £100 gennych chi o hyd a £5 ychwanegol mewn llog (5% o £100). Cyfanswm £105.

Cyfraddau llog i fenthycwyr

Os byddwch chi'n benthycu arian gan fanc neu gymdeithas adeiladu rhaid i chi dalu mwy yn ôl i'r benthyciwr fel llog ar yr arian a fenthyciwyd, felly mae angen i chi chwilio am gyfraddau llog uchel wrth gynilo a chyfraddau isel wrth fenthycu.

Ymchwiliwch wahanol gyfrifon sy'n cael eu cynnig gan wahanol sefydliadau ariannol. Gallech fynd i'ch banciau a chymdeithasau adeiladu ar y stryd fawr, neu edrych ar-lein, a pheidiwch ag anghofio bod rhai archfarchnadoedd a swyddfeydd post yn cynnig cynnyrch a gwasanaethau ariannol hefyd. Dewiswch un a nodwch yn gryno:

a) i beth fyddai ei angen arnoch chi i agor y cyfrif

.....

a) ii - Cymharwch beth sydd angen i chi wneud i agor cyfrif cynilo gyda dau gwmni gwahanol a dywedwch pa un sydd hawsaf yn eich barn chi gan roi un rheswm pam

Pa un sydd hawsaf

Rheswm.....

.....

b) i) y gyfradd llog sy'n cael ei gynnig i gynilwyr

.....

b) ii - Cymharwch y cyfraddau llog o gyfrifon cynilo dau gwmni gwahanol a rhwch un rheswm pam y gallen nhw fod yn wahanol

Cyfradd Llog cwmni 1: Cwmni..... Cyfradd Llog.....

Cyfradd llog cwmni 2: Cwmni..... Cyfradd Llog.....

Rheswm dros y gwahaniaeth

.....

.....

c) unrhyw delerau ac amodau arbennig

.....

.....

ch) pa wasanaethau mae'r cyfrif yn eu cynnig.

.....

.....

d) Gan ddefnyddio enghraifft ar gyfer pob un, esboniwch bedwar rheswm pam y gallech chi fod yn cynilo arian mewn cyfrif cynilo

1.
2.
3.
4.

2.3 Sut gallwch gynllunio eich gwariant

2.3.1 Gweithgaredd 1 (AC 3.1, AC 3.2)

Crëwch gynllun cyllido personol ar gyfer yr wythnos neu'r mis nesaf.

Nodwch yr holl bethau rydych chi'n mynd i geisio eu gwneud i ennill ac i gynilo arian neu i dorri i lawr ar eich gwario. Wedyn lluniwch gyllideb yn dangos beth rydych chi'n bwriadu ei ennill neu ei wario yn ystod y cyfnod hwn. Drwy gydol y mis, cadwch gofnodion gofalus o'r hyn rydych wedi'i wario a'i ennill. Cadwch dderbynebaw siopa a dogfennau ariannol eraill er mwyn i chi gofio faint wnaethoch chi wario.

Ar y diwedd, cymharwch beth wnaethoch chi ei gyllido a beth wnaethoch chi ei ennill a'i wario mewn gwirionedd. (AC 3.1)

Sut gallech chi addasu eich cyllideb pe bai angen i chi gynilo mwy o arian? (AC 3.2)

Incwm - disgrifiad	Disgwyliedig	Gwirioneddol	Ffyrdd o arbed arian neu i gynyddu incwm
ee arian poced	£10.00	£8.00	Cwblhau tasgau mewn pryd
Cyfanswm Incwm			
Gwariant - disgrifiad			
ee tocyn bws	£3.50	£4.00	Cerdded i'r ysgol ar ddyddiau Mercher (dim bag chwaraeon)

Cyfanswm Gwariant			